## Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

**Dyddiad:** 6 Mawrth 2003
**Amser:** 14:00
**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Teitl:** Crynodeb o drafodaethau blaenorol ar y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop

## MATER

1. Mae'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol wedi ystyried y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop mewn sawl cyfarfod. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r trafodaethau a gafwyd yn y cyfarfodydd hynny, ynghyd â'r prif gasgliadau y daethpwyd iddynt.

2. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried crynodeb y trafodaethau ynghylch y Confensiwn, ynghyd â phapur EUR 02-03(p4) Llywodraeth y Cynulliad, a hynny er mwyn cytuno ar gyfres o gasgliadau y gall y Cadeirydd eu cyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

3. Ceir gwybodaeth gefndir ynghylch y Confensiwn yn Atodiad A.

## ARGYMHELLIAD

4. Gwahoddir yr Aelodau i roi sylwadau ar y crynodeb o gasgliadau ym mhwynt 19 ac i awgrymu unrhyw faterion neu sylwadau eraill y dylid eu codi gyda'r Ysgrifennydd Gwladol.

## CEFNDIR

5. Fel a nodir yn EUR 02-03(p4), mae'r trafodaethau ynghylch dimensiwn rhanbarthol y Confensiwn yn mynd rhagddynt. Ar 7 Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod llawn o'r Confensiwn i drafod materion rhanbarthol a dylanwadodd papur safbwynt y DU ar faterion rhanbarthol ar y drafodaeth.

6. Mae Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn awyddus i glywed sylwadau'r Pwyllgor ar y Confensiwn, ond nid oes modd iddo ddod i'r cyfarfod hwn oherwydd bod Cabinet y DU yn cyfarfod ar yr un diwrnod. Felly, mae wedi trefnu i gwrdd â'r Cadeirydd i drafod safbwyntiau'r Pwyllgor er mwyn sicrhau y cânt eu hystyried mewn trafodaethau ar y Confensiwn yn y dyfodol.

## TRAFODAETHAU BLAENOROL

**8 Mai 2002 - Trafodaeth ar bapur Llywodraeth Cynulliad Cymru**

7. Bu'r Pwyllgor yn ystyried dogfen [EUR 03-02(p3)] a oedd yn amlinellu terfynau'r Confensiwn.

8. Dyma'r prif faterion a gododd yn ystod y drafodaeth:

- Nid oedd mecanwaith ffurfiol ar gael er mwyn cyfrannu at y Confensiwn, ond byddai modd i'r Pwyllgor ddylanwadu ar y drafodaeth trwy gyflwyno cyfraniadau i aelodau'r Confensiwn.
- Roedd y Pwyllgor am wybod pa rôl y byddai llywodraeth ranbarthol yn debygol o'i chwarae yn sgil y Confensiwn.
- Byddai'r Confensiwn yn ystyried a ddylid creu sefydliad newydd i weithio ochr yn ochr â Chyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop. Fe allai, er enghraifft, gynnwys cynrychiolwyr o seneddau'r aelod-wladwriaethau, llywodraethau rhanbarthol neu bwyllgorau Ewropeaidd.
- Pe bai llywodraethau rhanbarthol yn chwarae mwy o ran yn yr UE, gallai leihau'r ymdeimlad o ddieithrwch ymhlith dinasyddion.

**31 Hydref 2002 - Trafodaeth â chynrychiolwyr seneddol y DU ar y Confensiwn**

9. Bu'r Pwyllgor yn trafod y Confensiwn â chynrychiolwyr seneddol y DU ar y Confensiwn, Gisela Stuart AS a'r Gwir Anrh David Heathcoat-Amory AS.

10. Dyma'r prif bwyntiau a gododd yn ystod y drafodaeth:

- Byddai angen datrys rôl y rhanbarthau i sicrhau bod y cytundeb cyfansoddiadol yn sefydlog yn y tymor hir, ond yr oedd tensiynau ynghylch rôl a dylanwad y rhanbarthau. Roedd anhawster gwirioneddol o ran gwahaniaethu rhwng rhanbarthau â grym deddfwriaethol a rhanbarthau heb rym deddfwriaethol. Roedd y gweithgor ar seneddau cenedlaethol wedi argymell y byddai materion a anfonir at seneddau cenedlaethol hefyd yn cael eu hanfon at gyrff deddfwriaethol yn yr aelod-wladwriaethau, ond yr oedd hefyd o'r farn y byddai'n amhriodol dweud wrth yr aelod-wladwriaethau sut i ymdrin â'u rhanbarthau.
- Yr oedd angen cael cydbwysedd rhwng y cyfnod yr oedd yn ei gymryd i gyflwyno deddfwriaeth a natur ddemocrataidd y broses ddeddfwriaethol. Yr oedd disgwyl y byddai cynigion i roi mwy o hawl i ranbarthau wrthwynebu deddfwriaeth ddrafft yr UE yn cael eu gwrthod oherwydd y byddai'n arafu'r broses.
- Mynegwyd pryderon na fyddai Cymru o reidrwydd yn elwa pe câi pwerau eu dychwelyd i seneddau cenedlaethol. Ers 1999, bu'n rhaid i'r Cynulliad roi deddfwriaeth yr UE ar waith er nad oedd wedi dylanwadu llawer arni. Er enghraifft, mae'r gwaith o ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn berthnasol iawn i'r Cynulliad, ond yn aml nid oes modd iddo ddylanwadu ar ddatblygiadau yn y maes hwnnw.

- Yr oedd yn bwysig datblygu proses seneddol i graffu ar benderfyniadau Cyngor Ewrop. Awgrymodd y Confensiwn sawl ffordd o wneud hynny, gan gynnwys anfon cynrychiolwyr seneddol gyda'r Gweinidogion i Gyngor Gweinidgoion yr UE neu ofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd gyflwyno'i raglen waith flynyddol i'r seneddau cenedlaethol.

**10 Gorffennaf 2002 a 5 Rhagfyr 2002 - Cyflwyniad oddi wrth RegLeg**

11. Yn ei gyfarfodydd ar 10 Gorffennaf a 5 Rhagfyr, bu'r Pwyllgor yn ystyried dogfen a gyflwynwyd gan grwp llywio Pwyllgor Cydlynu'r Rhanbarthau â Phwerau Deddfu i'r Confensiwn.

12. Roedd y ddogfen yn tanlinellu'r rôl bwysig y gallai llywodraethau a chynulliadau rhanbarthol ei chwarae o ran llywodraethu da yn nyfodol Ewrop.

13. Ategodd y Pwyllgor yr egwyddorion bras a oedd wrth wraidd y ddogfen a nododd bod angen gwneud llawer o waith i ddatblygu dylanwad y rhanbarthau â phwerau deddfu yn Ewrop.

**30 Ionawr 2003 - Datganiad Brwsel oddi wrth CALRE**

14. Bu'r Pwyllgor yn ystyried Datganiad Brwsel, sef datganiad gan Gynhadledd (Llywyddion) Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol.

15. Dyma brif bwyntiau'r Datganiad:

- bod angen cydnabod y Rhanbarthau yn y Cytundeb Cyfansoddiadol ac fel un o egwyddorion sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd;
- bod angen gwarant yn y Confensiwn i ddiogelu hunan-lywodraeth ranbarthol;
- bod angen datganoli a phennu cymwyseddau clir sy'n rhoi terfynau pendant ar gymwyseddau'r UE. Bydd angen gwarant o hyn.
- bod angen gwarantu hawl y rhanbarthau â phwerau deddfu i droi at y Llys Cyfiawnder;
- ei bod yn bwysig i'r seneddau rhanbarthol gydweithio â Senedd Ewrop a'r seneddau cenedlaethol;
- bod angen adolygu rôl Pwyllgor y Rhanbarthau a'r ffordd y mae'r seneddau rhanbarthol yn cymryd rhan ynddo, a hynny er mwyn cryfhau ei bwer a'i ddylanwad; a
- bod angen cyfrannu at y broses o sefydlu system ranbarthol agored a democrataidd yn y gwledydd sydd ar fin dod yn aelodau, a bod yn rhan o'r broses honno.

16. Cymeradwywyd y Datganiad gan y Pwyllgor.

**30 Ionawr 2003 - Safbwynt y DU fel y cytunwyd arno**

17. Yn ei gyfarfod ar 30 Ionawr, rhoddodd y Dirprwy Brif Weinidog wybod i'r Pwyllgor am

safbwynt swyddogol y DU ar y Confensiwn. Fe'i cyhoeddwyd ar y diwrnod hwnnw. Roedd safbwynt y DU yn gadarnhaol i Gymru, yn enwedig:

- Sicrhau bod yna ymgynghori uniongyrchol ar ddeddfwriaeth arfaethedig â gweinyddiaethau datganoledig, a hynny drwy ychwanegu cymal i'r perwyl hwn at Gytundeb Cyfansoddiadol yr Undeb Ewropeaidd;
- Atgyfnerthu egwyddor datganoli trwy gyfeirio'n benodol at rôl y rhanbarthau yn y Cytundeb newydd;
- Cryfhau Pwyllgor y Rhanbarthau i roi mwy o rym iddo ym mhroses lunio polisi Brwsel.

18. Croesawodd y Pwyllgor safbwynt y DU.

## CRYNODEB O SAFBWYNTIAU'R PWYLLGOR HYD YMA

19. Dyma'r pwyntiau y gellir eu casglu o drafodaethau'r Pwyllgor hyd yma:

- Dylai'r Confensiwn roi rôl gryfach a mwy ffurfiol i'r rhanbarthau ym mhroses benderfynu'r UE a dylid cydnabod cyfreithlondeb democrataidd ychwanegol y rhanbarthau â phwerau deddfu.
- Yn gyffredinol, dylid amlinellu cymwyseddau pob haen o lywodraeth yn fwy eglur, sef cymwyseddau'r UE, yr Aelod-Wladwriaeth a'r llywodraethau rhanbarthol.
- Dylai Llywodraeth y DU ddweud yn bendant sut y mae'n bwriadu sicrhau ei bod yn ymgynghori â'r Cynulliad, a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, ynghylch cynigion polisi yr UE.
- Dylid cydnabod meysydd polisi sy'n arbennig o berthnasol i Gymru neu feysydd y mae gan Gymru farn wahanol arnynt, megis diwygio'r PAC, a dylid rhoi mecanweithiau ar waith i ddatblygu'r farn wahanol honno.
- Dylai'r Cytundeb cyfansoddiadol newydd nodi pryd y byddai gan ranbarthau hawl i apelio yn erbyn deddfwriaeth yr UE, ac i bwy y byddai modd iddynt apelio.

### Cyswllt

- Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor